Contractau a roddwyd i PwC yn ystod y 12 mis diwethaf

05/04/2013

Diolch i chi am eich e-bost.

Ynglyn â'n gwaith archwilio allanol, mae PwC yn parhau i wneud gwaith yn yr awdurdodau unedol canlynol o dan y contract fframwaith a ddyfarnwyd yn 2006: Ynys Môn, Caerffili, Merthyr Tudful ac Abertawe.

Hefyd, o dan yr un contract fframwaith, mae PwC yn cyflawni gwaith ar hyn o bryd ar yr astudiaeth sydd ar y gweill gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â chynllunio ariannol a rheolaeth mewn addysg uwch.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu os ydych chi eisiau gofyn am unrhyw wybodaeth bellach.

Yr eiddoch yn gywir

Ian Phillips